CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

14 Ionawr/January, 2015

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar Dydd Mawrth, 20 Ionawr 2015 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 2.00 o'r gloch i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,

**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **20 January, 2015 at 2.00 p.m.,** to be held at the Council Chamber, Council Office, Llangefni toconsider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,

**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mr. Richard Parry Jones BA, MA
**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 11 Tachwedd, 2014.

3 **GWEINYDDU YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL**

Derbyn arweiniad gan Mr. Philip Health, Weightmans LLP mewn perthynas â'r uchod.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2013/14** (Tudalennau 7 - 26)

Cyflwyno i'w mabwysiadu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013/14.

5 **CYLLIDEB 2015/16** (Tudalennau 27 - 30)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

6 **MANDAD BANC** (Tudalennau 31 - 32)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

7 **EITEM SYDD YN DEBYGOL O GAEL EI DRAFOD YN BREIFAT - TIR RHOSGOCH**

Cyflwyno diweddariad llafar gan yr Ysgrifennydd.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Victor Hughes (Cadeirydd)<br>A M Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Lewis Davies, R Dew, Jim Evans, John Griffith, T Ll Hughes, K P Hughes, D R Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, H E Jones, R Ll Jones, G O Jones, Richard Owain Jones, R.Meirion Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma wrth deitlau eu swyddi yng Nghyngor Sir Ynys Môn)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro (BO),<br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys (GR),<br>Cymhorthydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Ann Griffith, Vaughan Hughes a Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynrychiolwyr o Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn,<br>Cynrychiolwyr o'r Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch. |

---

Dywedodd yr Is-Gadeirydd fod 96 o flynyddoedd wedi mynd heibio ers Diwrnod y Cadoediad a'i bod yn briodol cofio am y rhai oedd wedi aberthu eu bywydau dros eu gwlad. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion fel arwydd o barch.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb gan:-

Datganodd Mr Lewis Davies diddordeb personol yng nghyswllt Eitem 3 - Cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yn ymwneud â chais am grant gan Neuadd Gymuned, Llanfaes.

Datganodd Mr Jim Evans ddiddordeb personol yng nghyswllt Eitem 4 – Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn gan ei fod yn Aelod o Gyngor Tref Porthaethwy.

Datganodd Mr Jeff Evans ddiddordeb personol yng nghyswllt Eitem 4 - Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y 5 Tref - am ei fod yn Aelod o Gyngor Tref Caergybi.

Datganodd Mr John Griffith ddiddordeb personol yng nghyswllt Eitem 3 - Cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, yn ymwneud â chais grant (28) gan Gyngor Cymuned Cwm Cadnant. Datganodd ddiddordeb personol a rhagfarnol arall yng nghyswllt Eitem 3 - Cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, yn ymwneud â chais

grant (52) gan Faes Chwarae Llanfaethlu a chais am grant (53) gan Fenter Mechell.

Datganodd Mr T.Ll. Hughes ddiddordeb personol yng nghyswllt Eitem 3 - Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y 5 Tref gan ei fod yn Aelod o Gyngor Tref Caergybi.

Datganodd Mr Carwyn E. Jones ddiddordeb personol yng nghyswllt Eitem 3 – Cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, yn ymwneud â chais am grant gan Neuadd Gymuned Llanfaes.

Datganodd Mr R.O. Jones ddiddordeb personol a rhagfarnol yng nghyswllt Eitem 4 – Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn oherwydd mai ef yw Is-Gadeirydd y Gymdeithas. Gadawodd y cyfarfod yn ystod y pleidleisio ar y cais.

Datganodd Mr Bob Parry OBE ddiddordeb personol yng nghyswllt Eitem 3 - Cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, yn ymwneud â chais am grant gan Gyngor Cymuned Trewalchmai a Chyngor Cymuned Bryngwran. Datganodd ddiddordeb personol hefyd yng nghyswllt Eitem 4 - Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y 5 Tref oherwydd iddo lofnodi deiseb i gefnogi cadw'r Camerâu Diogelwch.

Datganodd Mr Dylan Rees ddiddordeb personol a rhagfarnol yng nghyswllt Eitem 4 - Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y 5 Tref fel Aelod o Gyngor Tref Llangefni (roedd y Cyngor Tref yn Gyd-Ymgeisydd). Dywedodd ei fod wedi cael barn gyfreithiol ac iddo gael cyngor y gallai siarad yng nghyswllt y cais hwn.

Datganodd Mrs Nicola Roberts ddiddordeb personol yng nghyswllt Eitem 4 - Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y 5 Tref gan ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Llangefni.

Datganodd Mr Peter S. Rogers ddiddordeb personol yng nghyswllt Eitem 4 - Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y 5 Tref oherwydd ei fod yn gyn Ynad.

## 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2014.

## 3 PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL

Cadarnhawyd a mabwysiadwyd lle yr oedd angen, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2014.

## 4 CAIS AM GYMORTH GRANT

- **Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn**

  Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn i roi cyflwyniad yng nghyswllt cais am gymorth grant gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

Rhoddodd y cynrychiolwyr grynodeb o weithgareddau Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn gan adrodd am lwyddiant nifer o athletwyr sydd wedi cynrychioli Ynys Môn yng Ngemau'r Ynysoedd dros y blynyddoedd.

Roedd y fid am gymorth grant yn un am brosiect 5 mlynedd fel a ganlyn:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | - | £50,000 | (Bydd £10k tuag at Gystadleuaeth Gymnasteg Rhyng-Gemau 2015) |
| Blynyddoedd 2 i 5 | - | £40,000 | y flwyddyn |

Nodwyd y byddai bid lwyddiannus yn sicrhau dyfodol Gemau'r Ynysoedd dros y 5 mlynedd nesaf.

Roedd y rhesymau am y fid am gymorth grant fel a ganlyn:-

- roedd y cais yn cael ei wneud er mwyn gwella perfformiad;
- i gynyddu cynrychiolaeth;
- i gynyddu ymwybyddiaeth yn lleol;
- i ymestyn yr iaith a diwylliant;
- sicrwydd ariannol i Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn;
- sicrhau cynrychiolaeth Ynys Môn;
- i ddatblygu athletwyr;
- i ddatblygu hyfforddwyr a swyddogion;

Dywedwyd hefyd y bydd Ynys Môn yn Lletya'r gystadleuaeth Gymnasteg Rhyng-Gemau 2015 gyda 8 Ynys yn cystadlu. Bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal yng Nghaergybi dros 5 diwrnod.

I ddilyn, cafwyd sesiwn o gwestiynau ac atebion gan Aelodau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i'r cynrychiolwyr o Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn a thrafodwyd y materion a ganlyn:-

- cefnogaeth unfrydol i Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn ac estynnwyd canmoliaeth uchel i'r athletwyr ar eu llwyddiant yng Ngemau'r Ynysoedd.;

- dylai cynllun busnes a mantolen ariannol fod wedi eu hatodi i'r cais am gymorth grant;

- dylid rhoi manylion ynglŷn â gweinyddwyr Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn.

- dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i ragori mewn gweithgareddau chwaraeon;

**PENDERFYNWYD yn unfrydol:-**

- **I gymeradwyo'r cais am gyllid a wnaed gan Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn am £50k yn y flwyddyn gyntaf a £40k wedi hynny am y 4 blynedd ddilynol;**

- **Y dylai Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn roi manylion am weinyddwyr y Gymdeithas i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn;**

- **Bod mantolen ariannol a Chynllun Busnes llawn Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn yn cael eu cyflwyno i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn cyn rhyddhau'r cyllid grant.**

- **Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y Pum Tref**

  Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr Cliff Everett, Clerc Cyngor Tref Caergybi fel cynrychiolydd Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y Pum Tref a'r Arolygydd Guy Blackwell, Heddlu Gogledd Cymru i roi cyflwyniad yn gysylltiedig â chais am gymorth grant gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

  Dywedodd Mr Everett mai ymgyrch oedd y prosiect hwn ar ran y 5 Cyngor tref i weithio mewn partneriaeth i fabwysiadu a rheoli gwasanaeth Camerâu Diogelwch newydd am y 10 mlynedd nesaf gyda golwg ar gael trafodaeth bellach gyda datblygwyr mawr am eu cyfraniad tuag at wella diogelwch y cyhoedd ar Ynys Môn. Bydd pob Cyngor Tref yn cymryd cyfrifoldeb am eu cynllun eu hunain o ran y dyluniad cychwynnol, cynllunio, caffael, ardaloedd goruchwylio, cynnal a chadw ac anghenion monitro / mynediad. Bydd Heddlu Gogledd Cymru a Phartneriaid Diogelwch Cymunedol yn parhau i weithio'n agos gyda phob un o'r Cynghorau Tref o dan nawdd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

  Mae'r 5 Cyngor Tref wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer cynnal a chadw eu systemau Camerâu Diogelwch ar gost o £20k y flwyddyn dros gyfnod ymrwymedig o 10 mlynedd. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal o fewn y 5 Cyngor Tref ynglŷn â rheolaeth y cynllun – a ddylai hynny fod o dan y strwythur presennol neu drwy gwmni cyfyngedig drwy warant.

  Dywedodd Mr Everett mai cais oedd hwn am gyllid grant unwaith ac am byth o £195,000.

  Dywedodd yr Arolygydd Guy Blackwell nad bwriad y cynllun hwn yw parhau i weithredu'r Camerâu Diogelwch blaenorol ond i weithredu system newydd gyda chefnogaeth Heddlu Gogledd Cymru.

  Dywedodd yr Ysgrifennydd y cafwyd cyngor cyfreithiol gan Weightmans LLP yng nghyswllt y cais hwn ac fe hysbyswyd y cynrychiolwyr o Fwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y 5 Tref ynglŷn â'r ymateb a gafwyd gan Weightmans LLP ymlaen llaw. Y Cyngor a gafwyd oedd bod angen cael gwahaniad clir rhwng darpariaeth y Cyngor o'r gwasanaeth Camerâu Diogelwch a sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r dyfodol. Dywedwyd ymhellach bod rhai anawsterau gyda'r cais hwn fel y mae'n cael ei gynnig ar hyn o bryd a hynny'n codi o 'fudd anuniongyrchol' o ystyried na chafwyd gwahaniad pendant.

I ddilyn cafwyd sesiwn o gwestiynau ac atebion gan Aelodau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i gynrychiolwyr Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y 5 Tref a chodwyd y materion a ganlyn:-

- roedd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cefnogi'r cais mewn egwyddor;
- bydd angen cael gwahaniad pendant rhwng darpariaeth y Cyngor Sir o Gamerâu Diogelwch er mwyn bodloni deddfwriaeth y Comisiwn Elusennol;
- mae angen rhoi sicrwydd i breswylwyr yr Ynys bod Camerâu Diogelwch yn eu lle i atal ac i weithredu i stopio trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;

Cynigiodd Mr. W.T. Hughes y dylid cymryd pleidlais wedi'i chofnodi. Ni chariwyd y cynnig.

**PENDERFYNWYD:-**

- **cymeradwyo, mewn egwyddor, y cais am gyllid a wnaed gan Fwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch 5 Tref, yn amodol ar gael sicrwydd bod 'gwahaniad pendant' yn cael ei nodi rhwng darpariaeth Camerâu Diogelwch y Cyngor Sir;**

- **y bydd angen cynnal trafodaethau pellach gyda Bwrdd Prosiect Camerâu Diogelwch y 5 Tref a Swyddogion yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**5 EITEM OEDD YN DEBYGOL O GAEL EI THRAFOD YN BREIFAT – TIR YN RHOSGOCH**

Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariad llafar i Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol ar y sefyllfa mewn perthynas â thrafodaethau ynglŷn â gwerthu safle Rhosgoch a'r materion oedd yn codi o hynny.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a disgwyl am ddiweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf o'r Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**Materion eraill**

**Gweinyddu'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn y dyfodol**

**Cododd yr Aelodau fater gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn y dyfodol.**

Nododd yr Ysgrifennydd ei fod yn ymwybodol iawn o bryderon Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol yng nghyswllt gweinyddiaeth yr Elusen i'r dyfodol ac am ddiogelu asedau'r Ymddiriedolaeth er budd preswylwyr Ynys Môn.

Gofynnwyd cwestiynau hefyd yng nghyswllt cymhwysedd ardal Amlwch yn awr i allu cyflwyno ceisiadau am gyllid gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Roedd aelodau’r Ymddiriedolaeth hefyd yn dymuno cael cyngor gan y Rheolwyr Buddsoddi ar y llog a dderbynnir ar fuddsoddiad yr Ymddiriedolaeth.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD galw Cyfarfod Arbennig o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i drafod y materion a godwyd.**

**Mr Victor Hughes**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **20 IONAWR 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2013/14** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I GYFLWYNO YR ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON DRAFFT I'W MABWYSIADU** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151 DROS DRO I GYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDIAD:** | **MABWYSIADU'R ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON AC AWDURDODI EU CYFLWYNO I'R COMISIWN ELUSENNAU** |

Mae'r archwiliad o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft ar gyfer 2013/14 wedi eu cwblhau ac, felly, fe'u cyflwynir i'w mabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i fformat na chynnwys y cyfrifon eleni.

Gwahoddir yr Ymddiriedolaeth Elusennol i fabwysiadu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a gyflwynir, ac i awdurdodi Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth i arwyddo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

**RICHARD MICKLEWRIGHT** **14 IONAWR 2015**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG A151 DROS DRO**
**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

# YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

# ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2013/2014

## ANNUAL REPORT

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn / Isle of Anglesey Charitable Trust
Swyddfa'r Sir / County Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW.

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Elusen Gofrestredig : 1000818

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 2013/14**

## GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

### GWEITHRED YMDDIRIEDOLAETH

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif Elusen Gofrestredig 1000818) ar 5 Mehefin 1990 ac mae Gweithred Ymddiriedolaeth gyda'r dyddiad hwn arni yn nodi dyletswyddau, pwerau ac amodau y bydd raid i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio gyda nhw.

### YMDDIRIEDOLWR

Unig Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn. Y rhai mewn swydd oedd :-

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | - | Elwyn Schofield (Tan 18 Mehefin 2013) |
| | - | Thomas Victor Hughes (O 18 Mehefin 2013) |
| Is-Gadeirydd | - | Gareth Winston Roberts O.B.E (Tan 18 Mehefin 2013) |
| | - | Aled Morris Jones (O 18 Mehefin 2013) |
| Ysgrifennydd | - | Prif Weithredwr Y Cyngor:<br>Richard Parry Jones |
| Trysorydd | - | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y Cyngor:<br>Clare Williams FCCA, MA, MBA |
| Cyfreithiwr | - | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro y Cyngor:<br>Lynn Ball LL.B. (Hons) |

### CYNGHORWYR

Y rhain oedd yn cynghori'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2013/14:-

| | | |
|---|---|---|
| Bancwyr | : | HSBC Cyf<br>Stryd Fawr<br>Llangefni |
| Archwilwyr | : | Y Mri W.J.Matthews a'i Fab<br>Cyfrifwyr Siartredig<br>11 - 15 Y Bont Bridd<br>Caernarfon |
| Rheolwyr Buddsoddi: | | HSBC Global Asset Management (UK) Limited<br>78 James's Street<br>Llundain<br>SW1A 1EJ |

## STRWYTHUR LLYWODRAETHU A RHEOLI

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn, rhagflaenydd i'r Cyngor Sir, i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gyda'r arian a roddwyd i'r Cyngor pryd yr oedd Shell (UK) Ltd yn rhoi'r gorau i weithio'r Lanfa Olew ym Môn. Rhoddwyd yr arian hwn gan Shell (UK) Ltd dan Ddeddf Seneddol breifat - Deddf Glanfa Môn 1972, sef deddf a oedd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor "i ddefnyddio'r arian yn un swydd er lles Ynys Môn neu ei thrigolion".

Ers etholiadau'r Cyngor yn mis Mai 2013 roedd gan y Cyngor Sir 30 Aelod etholedig sydd, ar gyfer gweithredu fel Ymddiriedolwr, yn cyfarfod ar wahân i'w cyfarfodydd fel awdurdod lleol. Mae Aelodau etholedig newydd yn cael eu briffio ar amcanion ac ar sut y gweinyddir yr Ymddiriedolaeth. Cefnogir yr holl Aelodau etholedig gan swyddogion y Cyngor, sy'n derbyn hyfforddiant rheolaidd fel rhan o'u swyddi. Cynhelir cyfarfodydd llawn, fel Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn penderfynu ar bolisi ac ar wariant am y flwyddyn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol dri phwyllgor, gyda phob Aelod o'r Cyngor yn aelod o un ohonynt (a Chadeirydd ac Is-gadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn aelodau ex officio o bob un):-

> Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau oedd a deg o aelodau yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth trwy'r ymgynghorwyr buddsoddi, am faterion ynglŷn â'r eiddo sydd ym mherchenogaeth yr Ymddiriedolaeth ac am faterion cytundebol eraill.
>
> Pwyllgor Grantiau Cyffredinol oedd a deg aelod yn ystod y flwyddyn. Mae'n penderfynu ar raglen grantiau blynyddol a gyllidir o gyllideb refeniw'r Ymddiriedolaeth Elusennol a benderfynir gan y corff llawn a'i ddirprwyo i'r Pwyllgor hwn.
>
> Pwyllgor Adfywio oedd a deg aelod yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn penderfyniad i neilltuo cyllid at amcanion adfywio, mae'r Pwyllgor Adfywio yn penderfynu ar grantiau adfywio ac yn monitro cynnydd ar gynlluniau adfywio.
>
> Mae swyddogion yr Ymddiriedolaeth Elusennol ac, ar adegau, swyddogion eraill y Cyngor Sir, yn rhoi cyngor i'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn ei gyfarfodydd. Ychydig o benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo iddynt.

Cyn etholiadau'r Cyngor roedd 40 Aelod ar y Cyngor Sir. Fe adlewyrchwyd hyn ym maint pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth gyda'r Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau hefo wyth aelod, y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol hefo un ar bymtheg aelod a'r Pwyllgor Adfywio hefo un ar bymtheg aelod (heb gynnwys aelodau ex officio) hyd at Fehefin 2013.

Mae gweithgareddau dyddiol fel y'u cymeradwyir gan yr Ymddiriedolaeth yn cael eu gweinyddu ar ran yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae rhai nodweddion y broses ceisio am grant yn gyffredin i'r Ymddiriedolaeth hon a chronfeydd eraill a weinyddir gan y Cyngor Sir er mwyn hwyluso'r broses i ymgeiswyr. Nid yw'r Cyngor yn codi am wasanaethu i'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r risgiau sylweddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel sydd wedi eu hadnabod gan yr Ymddiriedolwr, wedi eu hadolygu, a sefydlwyd systemau a gweithdrefnau i leihau'r risg.

## AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Cyfyngir amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth i les cyhoeddus a chyffredinol y bobl hynny sy'n byw ar Ynys Môn, yn cynnwys:-

darparu mwynderau a chyfleusterau;
cadwraeth adeiladau;
cadwraeth a gwarchodaeth tir;
gwarchod a diogelu'r amgylchedd.

Cyrhaeddir y nod hwn trwy gyfrannu tuag at wario ar wasanaethau er lles y cyhoedd a thrwy roddi grantiau i gyrff elusennol a gwirfoddol.

Mae'r cyfyngiadau ar ddulliau rhedeg yr Ymddiriedolaeth wedi eu nodi yn y Weithred Ymddiriedolaeth. Y prif bwerau yw hybu amcanion elusennol a gwneud trefniadau i bwrpas rheoli a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth fel y tybir yn addas.

Mae gwaddol gan yr Ymddiriedolaeth, y gellid ei wario ar yr amod bod dwy ran o dair o'r aelodau yn cymeradwyo penderfyniad i'r perwyl. Mae wedi mabwysiadu amcan tymor-hir y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant. Mae'r incwm buddsoddi yn cyllido rhan o gostau rhedeg Oriel Ynys Môn a rhaglen grantiau blynyddol.

## POLISI DYRANNU GRANTIAU

Dyrennir grantiau o'r incwm buddsoddi blynyddol i elusennau, mudiadau gwirfoddol a chyrff lleol eraill ar gyfer prosiectau ar Ynys Môn. Gwahoddir ceisiadau am gyllid, unwaith yn y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol**.**

Gwneir dyraniadau yn flynyddol i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychain);
Neuaddau Pentref (costau rhedeg blynyddol);
Grantiau eraill (grantiau bychain unwaith-ac-am-byth yn bennaf).

## POLISI YNGLŶN Â'R ARIAN WRTH GEFN

Canlyniad y strategaeth ariannol a fabwysiadwyd yn 2009 yw nad oes angen rhagor ar arian wrth gefn cyfalaf ar wahân, heblaw i adnabod ymrwymiadau hanesyddol. Oherwydd gall rhai o'r ymrwymiadau ariannol cael ei wneud dros gyfnod o fwy nag un flwyddyn ariannol, mae'r arian wrth gefn cyffredinol yn cael ei alluogi i fynd i ddiffyg ar yr amod fod llif arian yn ei ddod yn ôl i warged erbyn bydd yr ymrwymiad yn cael ei anrhydeddu'n llawn.

Mae'r Ymddiriedolwr yn ystyried fod lefel gyfredol yr arian wrth gefn yn ddigonol i ddarparu incwm buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer taliadau grant a hefyd ar gyfer costau cefnogi llywodraethu.

## CYFLAWNI A PHERFFORMIAD

Rhoddwyd grantiau i 44 o gyrff gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt ac y mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn ffynhonnell bwysig o gyllid i elusennau lleol a chyrff chwaraeon a rhai gwirfoddol.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gyllido Oriel Ynys Môn sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor Sir.

Yn ystod y flwyddyn, roedd Oriel Ynys Môn ar agor 357 diwrnod, gan gyrraedd ei darged ar gyfer dyddiau agor.

Yn ystod y flwyddyn, ddaru'r Oriel:-

- Denu 96,729 o ymwelwyr, gostyngiad o 13% ar gyfanswm y flwyddyn flaenorol o 111,152;
- Cynnal 14 arddangosfa celf gyfoes a 6 arddangosfa celf hanesyddol;
- Cynnal 2 arddangosfa amgueddfa;
- Cynnal 22 o weithgareddau plant a theuluoedd;
- Cynnal 48 ymweliad addysgiadol;
- Rhoi 12 sgwrs yn y gymuned am yr Oriel a'r casgliadau;
- Cynnal 8 o weithgareddau ar gyfer grwpiau targed;
- Cynnal 12 o weithgareddau ar gyfer oedolion;
- Cynnal 6 sgwrs y tu ôl i'r llenni;
- Derbyn 50 ymholiad gan y cyhoedd ynglŷn â'r casgliadau; a
- Gweithio hefo 50 o bartneriaid, lleol a chenedlaethol yng Nghymru a thrwy gydol Prydain, ar wahanol lefelau i ehangu a datblygu enw da'r Oriel a phroffil Ynys Môn.

Yn ychwanegol, eto eleni mae wedi cael y Wobr Cynllun Sicrhau Ansawdd i Atyniadau Ymwelwyr Cymru (rhoddwyd gan Visit Wales).

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi dwy gyfran o gyllideb i Menter Môn tuag at y Cynllun Datblygu Gwledig (Rhan 1 yn 2006/07 o'r Dynodiad Adfywio a Rhan 2 yn 2010/11 o'r Arian wrth Gefn Cyffredinol, cyfanswm o £0.3m yr un), gyda chyfran Rhan 2 yn dod o 2012/13.

Yn ystod 2013/14, caniataodd y gyllideb i Fenter Môn:-

- denu £1.469m o arian Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear;
- cefnogi datblygu 25 prosiect gwasanaethau lleol gan greu 18 swydd llawn amser, 10 swydd rhan amser a diogelu 9 swydd;
- cynghori 389 unigolion i ddatblygu gwasanaethau lleol;
- cefnogi'n ariannol 17 prosiect adnewyddu pentref;
- sefydlu 6 rhwydwaith adnewyddu ffurfiol mewn ardaloedd gwladol;
- ariannu 8 prosiect isadeiledd twristiaeth wedi eu lleoli yn y gymuned; ac
- ariannu 11 prosiect isadeiledd hamdden leol.

## PERFFORMIAD BUDDSODDI

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bwerau buddsoddi eang sy'n cynnwys prynu stociau, cyfranddaliadau, gwariannau ac eiddo o bob math pa un a ydynt yn cynhyrchu incwm ai peidio â beth bynnag fo'r risgiau cysylltiedig. Disgrifir y pwerau hyn yn y Weithred Ymddiriedolaeth.

Mae'r perfformiad hyd yma yn erbyn yr amcan tymor-hir y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant, wedi ei glandro heb gynnwys gwerth y tir, fel a ganlyn:-

Ers 1990: Targed: £14.276m Gwerth ar 31/03/14: £15.645m, sef £1.369m uwchlaw'r targed.

### Incwm Buddsoddiadau

Targed : £400,000 Cyflawni : £499,915, sef £99,915 uwchlaw'r targed.

**Perfformiad i'w gymharu â'r meincnod**

Y strategaeth gytunedig ar gyfer y tymor canol yw ychwanegu 1.5% y.f. uwchben y meincnod dros gyfnod treigl 3 blynedd, gyda'r meincnod dilynol ar gyfer dyrannu asedau:-

| | |
|---|---|
| Ecwitïau'r DU | 59% |
| Ecwitïau Tramor | 18% |
| Llog Sefydlog | 17% |
| Eraill | 4% |
| Arian Parod | 2% |

Mae'r meincnod wedi bod yn effeithiol o 1 Ionawr 2011.

Portffolio o gyfranddaliadau ar wahân yw'r buddsoddiadau Ecwiti'r DU. Gwneir buddsoddiadau yn y dosbarthau buddsoddi eraill trwy fuddsoddi mewn buddsoddiadau cyfun.

Cytunwyd gyda'r Rheolwyr ar ffi yn gysylltiedig â pherfformiad, sy'n berthnasol i berfformiad yn erbyn y meincnod ym mhob blwyddyn galendr.

Mae'r ffi perfformiad a gytunwyd â'r Rheolwyr Buddsoddi yn seiliedig ar flynyddoedd calendr. Perfformiad 2013 oedd dychweliad o 18.26% o'i gymharu â'r meincnod o 14.29%. Roedd y dychweliad cyfatebol am y flwyddyn ariannol yn 7.34% (meincnod 5.49%). Roedd y perfformiad dros y tair blynedd i Ragfyr 2013 yn 8.58% (cyfartaledd blynyddol) oedd yn 0.99% o flaen y meincnod.

**ADOLYGIAD ARIANNOL**

Roedd yr incwm buddsoddi gros a ragwelwyd am y flwyddyn yn £450,000. Ar ei diwedd, roedd yr incwm buddsoddi yn £499,915 (2012/13 : £500,021). Yn ychwanegol, tyfodd y buddsoddiad portffolio mewn gwerth o £ 1.19m dros y flwyddyn.

Cynhwysir tir Rhosgoch ym mantolen yr Ymddiriedolaeth ar brisiad o £3.00 miliwn ond nid yw'n ildio incwm cymesur, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i weld gwireddu'r potensial.

Roedd y gyllideb refeniw am y flwyddyn yn caniatáu dyrannu grantiau o £316,836 (£351,757 yn 2012/13).

**DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Ar ôl 31 Mawrth 2014, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth y dyfarniadau grant canlynol o fewn y categorïau blynyddol arferol:-

- Cyfleusterau Cymunedol: £102k;
- Neuaddau Pentref: £80k; ac
- Oriel Ynys Môn: £ 215k.

Yn ychwanegol i'r uchod, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud y dyfarniadau grant canlynol: -

- Ffermwyr Ifanc Ynys Môn wedi derbyn grant o £30k y flwyddyn am gyfnod o 5 mlynedd i gefnogi'r costau rhedeg;
- Urdd Gobaith Cymru wedi derbyn grant o £40k y flwyddyn am gyfnod o 5 mlynedd i gefnogi'r costau rhedeg;
- Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn wedi derbyn grant, yn amodol ar amodau, £50k yn y flwyddyn gyntaf a £40k y flwyddyn am y 4 blynedd ganlynol i gefnogi'r costau rhedeg; ac

- Bwrdd Prosiect CCTV 5 Trefi wedi derbyn grant, yn amodol ar amodau, £195k i weithredu system teledu cylch cyfyng newydd yn cael ei weithredu gyda chefnogaeth Heddlu Gogledd Cymru.

**CYNLLUNIAU I'R DYFODOL**

Mae'r datganiadau cyllidol wedi eu paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau (2005), ac maent yn cydymffurfio â gweithred ymddiriedolaeth yr Elusen a chyfraith berthnasol.

Yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth ar 20 Ionawr 2015 rhoddwyd cymeradwyaeth i Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwr ac i'r Cyfrifon sy'n ymddangos ar dudalennau 6 i 13.

**Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr ar** 20 Ionawr 2015

**a llofnodwyd ar ei ran gan: ……………………………………………**

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Elusen Gofrestredig: 1000818

**DATGANIAD AR WEITHGAREDDAU CYLLIDOL DROS Y FLWYDDYN A DDARFU AR 31 MAWRTH 2014**

| 2012/13 £ | Adnoddau i mewn | NODYN £ | Y GRONFA GYFFREDINOL £ | Y GRONFA GYFALAF £ | CYFANSWM £ |
|---|---|---|---|---|---|
| 499,425 | - Difidend a llog sefydlog ar fondiau | | 499,239 | - | 499,239 |
| 596 | - Llog | | 676 | - | 676 |
| 500,021 | | 2 | 499,915 | - | 499,915 |
| - | Rhent Tir | | - | - | - |
| 325 | Incwm arall | | - | 520 | 520 |
| 500,346 | **Cyfanswm Adnoddau i mewn** | | 499,915 | 520 | 500,435 |
| | **Adnoddau wedi eu gwario** | | | | |
| | Costau Cynhyrchu Cronfeydd | 3 | | | |
| 55,927 | Costau Rheoli Buddsoddiadau | | 41,669 | 40,940 | 82,609 |
| 10,921 | Costau Cyfreithio a Marchnata | | - | 35,682 | 35,682 |
| 66,848 | **Cyfanswm costau cynychu cronfeydd** | | 41,669 | 76,622 | 118,291 |
| **433,498** | **Adnoddau net i mewn ar gael ar gyfer gwariant elusennol** | | **458,246** | **(76,102)** | **382,144** |
| | **Gweithgareddau Elusennol** | | | | |
| | Grantiau er hyrwyddo amcanion yr Elusen | 5 | | | |
| 230,000 | - Cyngor Sir Ynys Môn | | 215,000 | - | 215,000 |
| 121,757 | - Cyrff Cymunedol a Gwirfoddol | | 101,836 | - | 101,836 |
| 6,953 | - Grantiau Eithriadol | | - | 11,729 | 11,729 |
| (18,652) | Llai Grantiau heb eu hawlio | | - | - | - |
| 340,058 | **Cyfanswm cost Grantiau a Gweithgareddau** | | 316,836 | 11,729 | 328,565 |
| | **Llywodraethu** | | | | |
| 2,059 | Ffioedd a Chostau | 6 | 2,354 | 136 | 2,490 |
| **342,117** | **Cyfanswm Gwariant Elusennol** | | **319,190** | **11,865** | **331,055** |
| | | | | | |
| **408,965** | **Cyfanswm Adnoddau wedi eu gwario** | | **360,859** | **88,487** | **449,346** |
| **91,381** | **Adnoddau Net i mewn** | | **139,056** | **(87,967)** | **51,089** |
| | **Enillion a Cholledion Eraill** | | | | |
| 1,769,461 | Enillion/(colledion) o ganlyniad i ailbrisiant a gwerthiant asedau buddsoddi | | - | 675,686 | 675,686 |
| 1,860,842 | **Symudiadau Net o Gronfeydd** | | 139,056 | 587,719 | 726,775 |
| 16,275,476 | **Cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2013** | | 78,656 | 18,057,662 | 18,136,318 |
| **18,136,318** | **Cronfeydd a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth 2014** | | **217,712** | **18,645,381** | **18,863,093** |

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Elusen Gofrestredig : 1000818

## Y FANTOLEN FEL AR 31 MAWRTH 2014

| 2013 £ | | NODYN | £ | £ |
|---|---|---|---|---|
| | **Asedau Sefydlog** | | | |
| 3,000,000 | Eiddo buddsoddi | 7 | | |
| 15,959,149 | Buddsoddiadau | 8 | | |
| 18,959,149 | | | | 20,144,570 |
| | **Asedau Cyfredol** | | | |
| 57,482 | Dyledwyr ac Incwm wedi ei gronni | 9 | 57,482 | 47,542 |
| 623,212 | Arian yn y Banc | | 623,212 | 623,852 |
| 680,694 | | | | 671,394 |
| | **Ymrwymiadau** : Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | | |
| 1,199,556 | Credydwyr | 10 | 1,771,532 | |
| 303,969 | Grantiau heb eu talu | 11 | 303,969 | 181,339 |
| 1,503,525 | | | | 1,952,871 |
| **(822,831)** | **Yr Asedau / (Ymrwymiadau) Cyfredol Net** | | | |
| **18,136,318** | **Yr Asedau Net** | | | **18,863,093** |
| | **Cronfeydd** | 12 | | |
| 78, 656 | Cronfeydd heb eu Cyfyngu : Y Gronfa Gyffredinol | | | 217,712 |
| 18,041,723 | : Cyfalaf | | | 18,641,177 |
| 15,939 | : Grantiau i'w Dyrannu o'r Cyfalaf | | | 4,210 |
| **18,136,318** | | | | **18,863,093** |

**Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr ar** 20 Ionawr 2015.

**a llofnodwyd ar ei ran gan** ………………………………………..

## NODIADAU I'R DATGANIADAU CYLLIDOL

### 1. POLISÏAU CYFRIFO

**(a)** **Sail Cyfrifo:** Mae cyfrifon yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi eu paratoi yn ôl egwyddor cost hanesyddol fel y'i cymhwyswyd gan ailbrisio asedau buddsoddi ac maent yn gyson â'r Datganiad o Ymarfer Cymeradwy ar gyfer Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005 a gweithred ymddiriedolaeth yr Elusen a chyfraith berthnasol.

**(b)** **Mae'r grantiau sy'n daladwy** yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon pan fo'r dyraniad wedi ei gadarnhau gan yr Ymddiriedolaeth, a phan mae unrhyw amod a roddwyd ar y cyllid wedi ei gyflawni.

**(c)** Mae'r **incwm buddsoddiadau** yn gynwysedig yn y cyfrifon:-

- am adneuon tymor byr a balansau ar sail gronedig ddyddiol;
- am ecwiti - pan gyhoeddir stoc fel cyn-rhandal;
- am renti – yn y flwyddyn y mae'n codi;
- am gronfeydd cyfun ac incwm arall, pan dderbynnir yr incwm.

Mae'r elfen gyffredin o'r stoc a dderbynnir yn lle difidend arian parod yn cael ei thrin fel incwm i'r gronfa.

**(ch)** **Gwariant**: Cynhwysir gwariant ar sail gronedig. Mae costau wedi eu rhannu i gategorïau pwrpasol yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol. Costau cynhyrchu incwm yw'r costau hynny sy'n codi'n uniongyrchol o wella, diogelu neu farchnata'r eiddo buddsoddi a chostau rheoli'r portffolio buddsoddiadau a chodi incwm buddsoddiadau.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys grantiau i gyrff gwirfoddol a lleol a chyfraniadau i wasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd wedi cynnwys gwariant uniongyrchol ar adeilad hanesyddol ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth. Codir y rhain yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i gynnig grant. Lle mae cyrff wedi cael eu hysbysu o fwriad i gynnig grant yn y dyfodol nodir hynny heb eu cronni yn y cyfrifon.

Mae Rheoli a Gweinyddu yn cynnwys taliadau i unigolion neu gyrff eraill yn ymwneud a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.

**(d)** **Buddsoddiadau**: Mae buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth wedi eu prisio yn ôl pris canolig y farchnad ar gau'r farchnad ar ddyddiad y fantolen ar wahân i fuddsoddiadau cyfun sydd wedi eu prisio yn ôl y pris bidio.

Mae enillion neu golledion o werthu neu ailbrisio buddsoddiadau yn cael eu codi ar neu eu rhoi ar gredyd yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol.

**(dd)** **Eiddo Buddsoddi**: Gweler nodyn 7 i'r cyfrifon.

**(e)** **Cronfeydd**: Rhoddir eglurhad o natur a phwrpas pob cronfa yn nodyn 12.

## 2. INCWM BUDDSODDI

Daw'r cyfan bron o incwm yr Ymddiriedolaeth o fuddsoddiadau yn nwylo'r Rheolwyr Buddsoddi. Mae'r ffioedd yn amodol ar berfformiad ac mae incwm yn cael ei ragamcanu yn net o ffioedd. Roedd cyfanswm incwm ar fuddsoddiadau (heb gynnwys rhenti tir) yn 2013/14 yn £499,915 (£500,021 yn 2012/13).

## 3. COSTAU CYNHYRCHU'R CRONFEYDD

Rhain yw costau rheoli'r eiddo buddsoddi a'r ffi i'r Rheolwyr Buddsoddi.

| | 2013/14<br>£ | 2012/13<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi'r Rheolwyr Buddsoddi | 82,609 | 55,927 |
| Costau Marchnata yn ymwneud â'r gwerthiant arfaethedig o'r tir yn Rhosgoch | 35,932 | 10,921 |
| | 118,541 | 66,848 |

Mae'r gost o wella, diogelu neu farchnata'r eiddo buddsoddi yn dod o'r Gronfa Gyfalaf. Codir rhan gyntaf o ffi'r Rheolwyr Buddsoddi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol ac unrhyw gost ychwanegol am berfformiad gwell na'r cyffredin o £40,940 ar gyfer 2013/14 (2012/13 : £19,779) yn erbyn y Gronfa Gyfalaf.

## 4. CYDNABYDDIAETH YMDDIRIEDOLWR A THRAFODION CYFFELYB

Ni dderbyniodd unrhyw aelod o'r Ymddiriedolaeth unrhyw gydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn. Ad-dalwyd costau teithio o £104 (2012/13: £56) i aelodau'r Ymddiriedolaeth.

## 5. GRANTIAU

Dyma'r gwariant elusennol uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol (a ariennir o'r Gronfa Cyffredinol, heblaw y nodir fel arall):-

| | 2013/14<br>£ | Nifer | 2012/13<br>£ | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | | | | |
| - Oriel Ynys Môn | 215,000 | 1 | 230,000 | 1 |
| **Grantiau i gyrff cymunedol a gwirfoddol:** | | | | |
| - Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Chyrff Elusennol Arall | 35,836 | 14 | 55,757 | 16 |
| - Costau Rhedeg Neuaddau Pentref | 66,000 | 31 | 66,000 | 34 |
| **Grantiau Eithriadol** | | | | |
| - Y Deyrnas Gopr (Ymddiriedolaeth Treftadaeth Diwydiannol (Amlwch)* | 11,729 | 1* | 6,953 | 1* |
| | **328,565** | **47** | **358,710** | **52** |

*** Ariennir o Gronfa'r Grantiau a Ddyrannir o Cyfalaf**

Mae'r symiau uchod ar sail yr isaf o'r grantiau a roddwyd neu a hawliwyd/y disgwylir eu hawlio. Ni ddilëwyd gwerth unrhyw grantiau refeniw a roddwyd yn y blynyddoedd cynt am fod cyrff a sefydliadau yn methu â chymryd yr arian neu oherwydd bod yr amodau oedd ynghlwm wrth y grant wedi eu torri (£18,862 yn 2012/13). Ar dudalen 14 rhestrir y grantiau hynny gwerth dros £1,000. Mae'r 47 grant a ddangosir uchod wedi eu talu i 44 o fudiadau gwahanol.

## 6. LLYWODRAETHU

Gweinyddir yr Ymddiriedolaeth am ddim gan Gyngor Sir Ynys Môn, a chynrychiola'r costau Llywodraethu ffioedd i gyrff eraill am wasanaethau arbenigol a chostau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Ymddiriedolaeth. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth staff. Ni wneir unrhyw daliadau i'r Ymddiriedolwr (y Cyngor) nac i unrhyw aelod neu swyddog unigol ac eithrio costau'r aelodau, ad-dalu taliadau a wnaed ar ran yr Ymddiriedolaeth, a'r gwariant at bwrpas elusennol a ddangosir yn 4 uchod. Dyma fanylion y costau Rheoli a Gweinyddu:-

| | 2013/14<br>£ | 2012/13<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi'r Archwiliwr - am wasanaethau Archwilio | 2,000 | 1,875 |
| Costau Gweinyddu | 136 | 128 |
| Costau Teithio a Chynhaliaeth | 104 | 56 |
| Ffi ymgynghori ar gyfer gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol | 250 | 0 |
| | **2,490** | **2,059** |

Mae costau uniongyrchol gweinyddol yr eiddo buddsoddi yn dangos fel costau yn y Gronfa Gyfalaf. Cyfanswm costau hyn oedd £136 (£128 yn 2012/13).

## 7. EIDDO BUDDSODDI

Yn ystod 1995 trosglwyddodd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn ddau ddarn o dir yn Rhosgoch a Phorth Amlwch i'r Ymddiriedolaeth a gwerth hwnnw ar y farchnad yn cael ei amcangyfrif yn £550,000. Yr oedd y tir hwn yn rhan o gytundeb terfynol cwmni Shell (UK) Cyf. (gweler Adroddiad yr Ymddiriedolwr) ac ynghlwm wrtho'r un amodau â'r rheini oedd ynghlwm wrth yr arian gwreiddiol. Gwerthwyd rhan o'r tir ym Mhorth Amlwch yn 1995/96 ac mae'r tir yn Rhosgoch yn parhau i fod ar y farchnad. Prisiwyd gweddill y tir yn Rhosgoch yn awr yn £3,000,000, sef ei werth marchnad amcangyfrifedig .

Nid oes gwerth i weddill y tir ym Mhorth Amlwch, sef amcangyfrif pris y farchnad, ac mae'n cael ei drin fel ased treftadaeth. Mae'n cynnwys un ochor i'r harbwr sy'n dyddio'n ôl i'r 18fed ganrif a hefyd Melin Mona a adeiladwyd yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r tir yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i fynediad cyhoeddus i'r Felin ac mae'n ystyried cynigion i gyflawni ei amcanion cadwriaethol a gwarchod a diogelu'r amgylchedd yng nghyswllt y tir hwn.

Gwnaed y gwaith prisio yma gan Brisiwr y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2014. Mae'r prisiwr yn Aelod o'r Sefydliad Brenhinol o'r Syrfewyr Siartredig (MRICS) ac mae'n gyflogedig gan y Cyngor.

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Asedau Treftadaeth arall, na pholisi i gaffael yn weithredol unrhyw asedau ychwanegol o'r fath.

## 8. BUDDSODDIADAU

Gellir dadansoddi'r buddsoddiadau yn y fantolen fel a ganlyn:-

| | 2013/14<br>£ | 2012/13<br>£ |
|---|---|---|
| Ecwiti'r DU | 10,295,413 | 9,767,370 |
| Ecwiti Tramor | 3,322,555 | 3,459,960 |
| Llog Sefydlog | 2,219,798 | 2,118,066 |
| Dewisiadau arall | 793,463 | 415,945 |
| | 16,631,229 | 15,761,341 |
| Arian Parod | 503,070 | 194,060 |
| Yn disgwyl setliad | 10,272 | 3,748 |
| | **17,144,571** | **15,959,149** |

Mae arian parod a fuddsoddir yn cynnwys symiau bychain o arian tramor. Dangosir y cyfan o'r buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r gwerth hanesyddol cyfatebol ar 31 Mawrth 2014 fel a ganlyn:-

| | Gwerth Hanesyddol<br>£'000 | Gwerth y Farchnad<br>£'000 | Gwahaniaeth<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Ecwiti'r DU | 7,659 | 10,295 | 2,636 |
| Ecwiti Tramor | 2,234 | 3,323 | 1,089 |
| Llog Sefydlog | 2,160 | 2,220 | 60 |
| Dewisiadau arall | 741 | 793 | 52 |
| | **12,794** | **16,631** | **3,837** |

Delir y buddsoddiadau trwy reolwyr buddsoddi ac yn enw enwebeion ac mae modd gwerthu'r holl ddaliadau yn ddidrafferth.

Ar ddyddiad y fantolen 'roedd y daliadau unigol mwyaf mewn buddsoddiadau cyfun (HSBC UK Common Fund for Income 1,554,939 uned: 10.77% o werth y portffolio; HSBC European Growth Fund Retail 187,522 uned: 7.15% o werth y portffolio).

| | Gwerth Hanesyddol<br>£'000 | Gwerth y Farchnad<br>£'000 | Enillion a Sylwedydd<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Dygwyd Ymlaen | 11,991 | 15,761 | |
| Gwerthiannau ac Adbryniadau | (2,913) | (3,521) | 609 |
| Pryniannau ac ati | 3,716 | 3,716 | |
| Cyfanswm enillion/(colledion) yn ystod y flwyddyn | - | 675 | |
| | **12,794** | **16,631** | |

Enillion/(colledion) a sylweddwyd yw'r gwahaniaeth rhwng incwm gwerthiant a chost hanesyddol y daliad a werthwyd. Cyfanswm enillion/(colledion) ar fuddsoddiadau yw cyfanswm yr enillion/(colledion) a sylweddwyd o werthu daliadau net o unrhyw newidiadau i gost hanesyddol ynghyd ag enillion/(colledion) heb eu sylweddu.

## 9. DYLEDWYR A CHRONIADAU

| | 2013/14 £ | 2012/13 £ |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi Cronedig | 47,542 | 57,482 |
| | **47,542** | **57,482** |

## 10. CREDYDWYR A CHRONIADAU

| | 2013/14 £ | 2012/13 £ |
|---|---|---|
| Ffi Rheolwyr Buddsoddi | 10,568 | 9,838 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1,759,139 | 1,187,023 |
| Ffi archwilio | 1,825 | 1,800 |
| Costau cyfreithiol yn ymwneud â gwaredu arfaethedig o’r tir yn Rhosgoch | - | 895 |
| | **1,771,532** | **1,199,556** |

## 11. GRANTIAU NA CHAWSANT EU TALU

Grantiau yw’r rhain a roddwyd o 2009/10 ymlaen â'r ymgeiswyr heb hawlio'r arian eto. Fel arfer mae'r grantiau hynny sydd ddim yn cael eu hawlio cyn pen pedair blynedd yn cael eu dileu, ac adlewyrchir hyn yn y ffigwr hwn.

Mae’r grantiau adfywio yn cefnogi cynlluniau lle mae'r ymgeiswyr yn hawlio taliadau dros gyfnod o flynyddoedd.

## 12. CRONFEYDD

| | **Cronfa Cyffredinol £’000** | **Cronfa Cyfalaf £’000** | **Dyrannwyd o’r Gronfa Cyfalaf £’000** |
|---|---|---|---|
| Eiddo Buddsoddi | - | 3,000 | - |
| Buddsoddiadau | 1,500 | 15,641 | 4 |
| Asedau Cyfredol Net | (1,282) | - | - |
| | **218** | **18,641** | **4** |

Mae'r arian parod dros ben yn unrhyw gronfa, nad oes ei angen ar gyfer hylifedd tymor byr, wedi ei fuddsoddi dros dro gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

Y **Gronfa Gyfalaf** yw gwaddol yr Ymddiriedolaeth ac mae'n waddol y mae modd ei wario. Mae'n cynnwys tir ac arian a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn oddi wrth Shell (UK) Cyf. pryd y rhoddwyd y gorau i weithio eu Glanfa Olew ym Môn, ac a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 1990 a 1995, ynghyd â'r twf cyfalaf ar y symiau hyn. O bryd i'w gilydd gellir rhyddhau cyfalaf i gyllido prosiectau penodol ar bleidlais mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodaeth yr Ymddiriedolaeth.

Mae’r symudiadau yn y Gronfa Cyfalaf yn ymwneud ag enillion a cholledion ar fuddsoddiadau, yr elfen perfformiad o ffi y Rheolwyr Buddsoddi ac unrhyw gostau o wella, diogelu a marchnata’r tir fel y dangosir yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol.

Bwriedir **Y Gronfa Grantiau a Glustnodwyd o Gyfalaf** i gyllido grantiau a gwariant elusennol dros ben rhaglen grantiau arferol yr Ymddiriedolaeth ac sydd wedi ei ryddhau o'r cyfalaf gan y nifer aelodau priodol. Rhyddhawyd £200,000 o'r Gronfa Gyfalaf yn 1998 i'r pwrpas hwn a chlustnodwyd y gweddill (£71,297) tuag at gyfleusterau cymunedol yn 2005/06. O’r swm hwn cafodd £14,037 ei ddyrannu i Gyfleusterau Cymunedol yn 2005/06, £28,141 pellach yn 2006/07, £1,747 yn 2007/08 a £21,756 yn 2008/09 gan adael £5,616 yn weddill i'w ddyrannu i Gyfleusterau Cymunedol pellach. Roedd y balans hefyd yn cynnwys £1,861 o grantiau a drosglwyddwyd yn ôl i’r gronfa. I adlewyrchu’r strategaeth ariannol a fabwysiadwyd yn 2009/10, cafodd y balansau eu trosglwyddo’n ôl i’r Cronfa Gyfalaf. Mae’r gweddill y balans yn ymwneud a chais yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Diwydiannol Amlwch - y Deyrnas Gopr (2008/09) ac wedi ei glustnodi i’r prosiect, ar sail fynegol. Yn ystod 2011/12 cymerwyd £15,908 o’r gronfa yma; £6,953 yn ystod 2012/13 a chymerwyd £11,729 o’r gronfa yn ystod 2013/14.

Mae'r balans ar **Y Gronfa Gyffredinol** yn cyfateb i'r gwarged a’r diffygion a gronnwyd dros y blynyddoedd diwethaf, sef gwarged y mae'r Ymddiriedolaeth yn rhydd i'w defnyddio yn ôl yr amcanion elusennol.

Mae incwm o'r buddsoddiadau a'r costau eraill na chodir i’r gronfa cyfalaf yn y flwyddyn yn ymwneud â'r Gronfa Gyffredinol digyfyngiad fel sy'n ymddangos yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol. Mae'r dyraniadau a wneir yn y rhaglen grantiau blynyddol yr Ymddiriedolaeth hefyd yn berthnasol i'r gronfa hon.

## 13. DADANSODDIAD O SYMUDIADAU RHWNG CRONFEYDD

| | **Balans dygwyd ymlaen £** | **Adnoddau i mewn £** | **Adnoddau wedi eu defnyddio £** | **Enillion a Cholledion £** | **Balans i’w ddwyn ymlaen £** |
|---|---|---|---|---|---|
| General Reserve | 78,656 | 499,915 | (360,859) | - | 217,721 |
| Capital Fund | 18,041,723 | 520 | (76,758) | 675,686 | 18,641,171 |
| Grants Allocated | 15,939 | - | (11,729) | - | 4,210 |
| | **18,136,318** | **500,435** | **(449,346)** | **675,686** | **18,863,093** |

## Grantiau dros £1,000 / Grants over £1,000

| MUDIAD | Grant | ORGANISATION |
|---|---|---|
| Oriel Ynys Môn | 215,000.00 | Oriel Ynys Môn |
| Neuadd Bentref Penysarn | 6,000.00 | Penysarn Village Hall |
| Clwb Pêl Droed Cemaes Bay | 4,337.00 | Cemaes Bay Football Club |
| Neuadd Bentref Gaerwen* | 4,157.83 | Gaerwen Village Hall* |
| Cymuned Chwarae Rhosneigr | 4,116.00 | Rhosneigr Community Play |
| Clwb Pêl Droed Pentraeth | 3,885.00 | Pentraeth Football Club |
| Neuadd Goffa Amlwch | 3,400.00 | Amlwch Memorial Hall |
| Canolfan Gymuned David Hughes Biwmares | 3,400.00 | David Hughes Community Centre Beaumaris |
| Canolfan Gymuned Newry | 3,400.00 | Newry Community Centre |
| Clwb Bowlio Tref Biwmares | 2,905.00 | Beaumaris Town Bowling Club |
| Neuadd Bentref Rhosneigr | 2,850.87 | Rhosneigr Village Hall |
| Cwmni Cemaes Cyf | 2,848.00 | Cwmni Cemaes Cyf |
| Canolfan Gymuned Gwelfor | 2,587.49 | Gwelfor Community Centre |
| Neuadd Gymuned Llaingoch | 2,432.42 | Llaingoch Community Hall |
| Neuadd y Plwyf Llandegfan | 2,379.07 | Llandegfan Community Hall |
| Canolfan Hamdden Biwmares a'r Cylch | 2,352.00 | Beaumaris Leisure Centre |
| Neuadd Pritchard Jones | 2,348.89 | Pritchard Jones Hall |
| Neuadd Goffa Pentraeth | 1,986.36 | Pentraeth Memorial Hall |
| Neuadd Bentref Llanfaelog* | 5,476.92 | Llanfaelog Village Hall* |
| Neuadd Goffa Llanfaethlu | 1,945.73 | Llanfaethlu Memorial Hall |
| Canolfan Gymuned Goffa Porthaethwy | 1,944.47 | Menai Bridge War Memorial Community Centre |
| Groundwork Gogledd Cymru | 1,922.00 | Groundwork North Wales |
| Cymdeithas Amaethyddol Môn | 1,690.00 | Anglesey Agricultural Society |
| Canolfan Gymuned Brynsiencyn | 1,553.32 | Community Centre Brynsiencyn |
| Cymdeithas Chwaraeon a Chymdeithasol Porth Amlwch | 1,438.44 | Amlwch Port Sports & Social Association |
| Hen Ysgol Marianglas | 1,433.55 | Old School in Marianglas |
| Neuadd Goffa Bodedern | 1,430.67 | Bodedern Memorial Hall |
| Cae Chwarae Dwyran | 1,362.00 | Dwyran Playground |
| Canolfan  Gymuned Llangoed & Penmon | 1,330.00 | Llangoed & Penmon Community Council |
| Neuadd Bentref Brynteg | 1,247.27 | Brynteg Village Hall |
| Neuadd Bentref y Talwrn | 1,241.09 | Talwrn Village Hall |
| ***Mwy nag un grant wedi ei ddyrannu i'r sefydliad** | | *** More than one grant allocated to the organisation** |

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr**

Yr ymddiriedolwr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig (Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig)

Yn ôl cyfraith elusennau Lloegr a Chymru, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o'r elusen, yr adnoddau mewnol a'r defnydd o adnoddau yr elusen am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr:-

**(a)** ddefnyddio a chymhwyso yn gyson bolisïau cyfrifyddol addas a luniwyd;
**(b)** dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiadiadau Cymeradwyol o Ymarferion Elusennnau.
**(c)** gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog i'w defnyddio yn gyson;
**(ch)** datgan os yw'r polisïau a fabwysiadwyd yn gyson gyda'r Datganiad o Weithredoedd Cymeradwyol priodol, gyda'r safonau cyfrifo priodol, yn amodol ar i'r amrywiadau sylweddol gael eu nodi a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol;
**(d)** paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes byw onid yw'n amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol digonol sydd yn dangos, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw bryd, sefyllfa ariannol yr elusen, sydd yn caniatáu iddynt sicrhau bod sefyllfa ariannol yr elusen a'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau 2011, Rheolau (Cyfrifo a Ymadrodd) Elusennau a'r darpariaethau o fewn gweithredoedd yr ymddiriedolaeth. Yr Ymddiriedolwr sydd hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Elusen ac felly am gymryd camau priodol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn**

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn am y flwyddyn i'r 31ain Mawrth 2013 sydd yn cynnwys y Datganiad o Weithredoedd Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a'r Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig (Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi ar gyfer yr ymddiriedolwr, fel corff, yn unol ac Adran 144 o'r Ddeddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau o dan Adran 154 o'r Ddeddf. Mae'n gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i ymddiriedolwr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd mewn adroddiad archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw yr elusen ac ymddiriedolwr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

***Priod Gyfrifoldebau Yr Ymddiriedolwr a'r Archwiliwr***

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg gwir a theg.

Yr ydym wedi ein hapwyntio fel archwiliwr yn unol ag Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â rheoliadau o dan Adran 154 o'r Ddeddf. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion cyfreithiol a rheolaethol ynghyd â Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'n ofynnol dan y safonau hynny i gydymffurfio a Safonau Moesol i Archwilwyr gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Ymlaen)**

**Cwmpas yr archwiliad o’r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sydd yn ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiad sylweddol, boed hynny wedi’i achosi trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o:-
os yw’r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r cwmni elusennol, wedi eu defnyddio yn gyson a'u datgelu’n ddigonol; o resymoldeb yr amcangyfrifon sylweddol a wnaethpwyd gan yr ymddiriedolwyr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, ‘rydym wedi darllen yr wybodaeth ariannol ac di-ariannol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr i adnabod os oes anghysondeb sylweddol gyda’r datganiadau ariannol.

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Yn ein barn, mae’r datganiadau ariannol yn:-

- rhoi golwg gwir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2014, ac am yr adnoddau cyllid a’r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a’r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol a’r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig ; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

**Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad**

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglŷn â’r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:-

- bod yr wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn faterol anghyson gyda’r datganiadau ariannol;
- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw;
- fod rhai datgeliadau am dal ymddiriedolwyr a benodir dan gyfraith wedi eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl o’r wybodaeth a’r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

*W J Matthews a’i Fab*
*Archwiliwr Statudol*
*Cyfrifwyr Siartredig*
*11-15 Y Bont Bridd*
*Caernarfon  LL55 1AB*

*Dyddiedig:*

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **20 IONAWR 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CANLYNIAD A RAGAMCENIR 2014/15 A CHYLLIDEB 2015/16** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYLLIDEB AMLINELLOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG A151 DROS DRO** |
| **GWEITHREDU:** | **MABWYSIADU'R GYLLIDEB A DIRPRWYO SWM I'W DDYRANNU I GRANTIAU BLYNYDDOL** |

## 1. Crynodeb

**1.1** Mae'n rhaid wrth yr adroddiad hwn i gadarnhau dyraniadau cyllido 2015/16 ac i ddirprwyo pwerau cyllido ar gyfer cyfleusterau cymunedol a chwaraeon a grantiau bychan i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol. Mae'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad yma yn seiliedig ar ganlyniad a ragwelir ar gyfer 2014/15.

**1.2** Golyga'r canlyniadau a ragamcenir ar gyfer 2014/15 fod yr arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2015 yn ddifyg o £25k. Gyda'r twf disgwyliedig yn yr incwm buddsoddi, a chan ragdybio y bydd y cyllid a roddir i Oriel Ynys Môn yn gostwng i £200k a dychwelyd cyllideb 2013/14 (£50k) a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, rhagamcenir bydd yr arian refeniw sydd wrth gefn yn cynyddu i sefyllfa warged o £7k yn 2015/16.

**1.3** Y gyllideb grantiau argymhellir ar gyfer 2015/16 yw:-

- Oriel Ynys Môn £200k;
- Neuaddau Pentref £80k; a
- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan £50k (y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gael awdurdod dirprwyedig i ddyrannu'r grantiau hyn).

## 2. Canlyniad a Ragamcenir

**2.1** Mae'r canlyniad a ragamcenir a'r arian refeniw wrth gefn ar gyfer 2014/15 yn wahanol i'r strategaeth a'r gyllideb fel a ganlyn:-

- Roedd arian refeniw wrth gefn ar ddiwedd 2013/14 £8k yn uwch na'r rhagamcan ar adeg cyflwyno'r adroddiad ar bennu cyllideb ar gyfer 2014/15; roedd hyn oherwydd bod ffioedd ymgynghoriaeth ar gyfer gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth yn £8k llai na'r gyllideb (a fydd yn llithro i flynyddoedd yn y dyfodol);
- Roedd incwm buddsoddi net o fân-wariant amrywiol £4k yn uwch na'r rhagamcan ar adeg cyflwyno'r adroddiad ar bennu cyllideb ar gyfer 2014/15;
- Roedd y ffi rheoli buddsoddiadau'n £1k (2%) yn uwch na'r gyllideb wreiddiol;
- Roedd Gwariant Grant yn £398k (126%) yn uwch na'r hyn a rhagamcenir yn adroddiad mis Mehefin 2014. Roedd hyn oherwydd cynnydd o £54k (108%) yn grantiau arall, £15k (8%) yn Oriel Ynys Môn, £14k (21%) yn Neuaddau Pentref. Yn ogystal, roedd pedwar grant pellach a ddyranwyd yn ystod 2014/15. Dyfarnwyd grantiau o £30k i Ffermwyr Ifanc Ynys Môn a £40k i Urdd Gobaith Cymru yng nghyfarfod 24 Mehefin, 2014 o'r Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Yn amodol ar amodau, dyfarnwyd £50k i Gymdeithas Gemau'r Ynysoedd Môn a £195k i Bwrdd Prosiect CCTV 5 Tref, yng nghyfarfod 11 Tachwedd, 2014, o'r Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn; a

- Cafwyd ffioedd proffesiynol o £3k mewn perthynas â'r cyngor a gafwyd ynghylch gweinyddu'r Ymddiriedolaeth. Rhoddwyd swm o £20k o'r neilltu i'r diben hwn felly cymerwyd yn ganiataol yn y rhagamcanion isod y bydd y £17k gweddilliol yn cael ei wario yn 2015/16.

**2.2** Mae'r canlyniadau a ragamcenir (sy'n cael eu crynhoi yn y tabl isod) yn golygu bod arian wrth gefn refeniw ar 31 Mawrth 2015 yn ddiffyg o £25k.

**2.3** Nodir grantiau yn yr arian wrth gefn refeniw pan wneir ymrwymiad i drydydd parti. Yn achos grantiau sydd i'w tynnu i lawr dros gyfnod o flynyddoedd, gellir cyllido'r rhain o incwm buddsoddi'r dyfodol. Gall y polisi arian wrth gefn a awgrymwyd yn y strategaeth ariannol a weithredwyd yn 2009/10, efallai ganiatáu diffyg o ran yr arian wrth gefn refeniw, ar yr amod fod rhagamcanion y llif arian yn dangos y gellir cwrdd ag ymrwymiadau arian parod a bod yr arian wrth gefn refeniw yn dychwelyd i warged dros y cyfnod y tynnir nhw i lawr.

**2.4** Dyma oedd y canlyniadau rhagdybiedig ar gyfer 2014/15 a'r rhagamcanion ar gyfer 2015/16 fel y cawsant eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth ym Mehefin 2014:-

| | **2014/15 £000** | **2015/16 £000** |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi* | 514 | 529 |
| Llai ffi safonol rheoli buddsoddiad* | (43) | (45) |
| Ar gael i'w wario | 471 | 484 |
| * a thybio y bydd yn tyfu ar 3% y flwyddyn | | |

**Gwariant ar:-**

| | | |
|---|---|---|
| Oriel Ynys Môn | (200) | (200) |
| Neuaddau Pentref | (66) | (66) |
| Grantiau eraill | (50) | (50) |
| Cyfanswm Dyraniadau | 316 | 316 |
| Ffi broffesiynol - gweinyddu'r ymddiriedolaeth | (12) | - |
| I/(O) Arian wrth gefn | 143 | 168 |
| Gwarged/(diffyg) rhagamcanedig ar ddiwedd y flwyddyn | 353 | 521 |

**2.5** Gellir yn awr diweddaru'r rhagdybiaethau a'r rhagamcanion uchod ar gyfer canlyniadau 2014/15, a canlyniadau rhagdybiedig ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Mae incwm buddsoddi'n cael ei ragamcan ymlaen fel patrwm twf 3% o waelodlin uwch. Cadarnhawyd cyllid Oriel Ynys Môn yn ffurfiol fel cytundeb tair blynedd yn Rhagfyr 2009 ac, o'r herwydd, nid oedd y ffigyrau hyd at ac yn cynnwys 2011/12 yn dangos unrhyw newid. Fel rhan o broses gosod cyllideb 2012/13, y cynnig o ran Oriel Ynys Môn oedd gostwng y cyllid i £200k y flwyddyn erbyn 2014/15, ond fe benderfynwyd i gadw'r gyllideb ar gyfer 2014/15 yn £215k. Mae hyn yn rhoi rhagamcanion diwygiedig (gan anwybyddu dyraniadau posibl a ildiwyd) fel a ganlyn:-

| **Incwm Buddsoddi** | **2014/15 £000** | **2015/16 £000** | **2016/17 £000** |
|---|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi | 518 | 534 | 550 |
| Llai ffi safonol rheoli buddsoddiad | (44) | (45) | (46) |
| Ar gael i'w wario | 474 | 489 | 504 |

**Gwariant grant**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oriel Ynys Môn | (215) | (200) | (200) |
| Neuaddau Pentref | (80) | (80) | (80) |
| Grantiau Eraill | (104) | (50) | (50) |
| Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | (30) | (30) | (30) |
| Urdd Gobaith Cymru | (40) | (40) | (40) |
| Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Môn | (50) | (40) | (40) |
| Bwrdd Prosiect CCTV 5 Tref | (195) | - | - |
| | (714) | (440) | (440) |

**Gwariant Arall**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffioedd proffesiynol – gweinyddu'r ymddiriedolaeth | (3) | (17) | - |

**Symudiadau yn yr arian wrth gefn**

| | | | |
|---|---|---|---|
| I/(O) Arian wrth gefn | (243) | 32 | 64 |
| Gwarged/(Diffyg) a ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn | (25) | 7 | 71 |

**2.5.1** Fel y gwelir, dangosir y rhagamcanion diweddaraf fod incwm buddsoddi ar gyfer 2014/15 wedi mynd tu hwnt i'r rhagamcanion cychwynnol. Mae'r cronfeydd wrth gefn a ragwelir ar gyfer 2015/16 yn agos iawn i adennill costau ac efallai y bydd yr Ymddiriedolaeth yn dymuno cymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y gyllideb briodol ar gyfer 2015/16.

## 3. Y Cylch Cyllido 2015/16

Cynnigir cyhoeddi hysbysebion am grantiau blynyddol i'w dyfarnu gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yng nghanol mis Chwefrof 2015, gyda dyddiad cau o ganol Mai 2015 ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Gweler Rhan 4(a) ar gyfer y gyllideb a argymhellir.

## 4. Argymhellion

**(a)** Mabwysiadu'r gyllideb am 2015/16 fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Oriel Ynys Môn | £200k |
| Neuaddau Pentref | £ 80k |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan | £ 50k |

**(b)** Dirprwyo swm o £50k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddelio gyda cheisiadau.

**RICHARD MICKLEWRIGHT**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)/SWYDDOG A151 DROS DRO**
**CYNGOR SIR YNYS MÔN** **13 IONAWR 2015**

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **20 IONAWR 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARU'R MANDAD BANC** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARU'R RHESTR O LOFNODWYR AWDURDODEDIG MEWN PERTHYNAS Â CHYFRIFON BANC YR YMDDIRIEDOLAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)/SWYDDOG A151 INTERIM** |
| **GWEITHREDU:** | **CYMERADWYO'R NEWIDIADAU I'R LLOFNODWYR AWDURDODEDIG** |

**1.1** Cafodd y rhestr o lofnodwyr awdurdodedig ar y mandad banc cyfredol ar gyfer cyfrifon banc lleol (a reolir yn uniongyrchol) yr Ymddiriedolaeth ei diweddaru ym mis Mawrth 2013 a hynny mewn cydymffurfiaeth â phenderfyniad yr Ymddiriedolaeth a Gweithred yr Ymddiriedolaeth. Mae'r mandad banc yn cyfeirio at lofnodwyr ar gyfer y meysydd perthnasol isod: -

**a)** Talu unrhyw sieciau ac unrhyw gyfarwyddiadau eraill ar gyfer taliadau neu dderbyn cyfarwyddiadau i roi'r gorau i daliadau o'r fath;

**b)** Bod y banc yn danfon unrhyw item y mae'n ei chadw'n ddiogel ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol;

**c)** gweithredu ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol mewn unrhyw drafodion eraill gyda'r banc (gan gynnwys cau cyfrifon); a

**ch)** rhoddi i'r banc restr o bobl sydd ag awdurdod i lofnodi, rhoi derbynebion a gweithredu ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol.

**2.1** Mae angen llofnod y Trysorydd ar gyfer nifer o'r meysydd uchod. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Drysorydd ar hyn o bryd, felly, er mwyn sicrhau fod y mandad yn gyfredol, mae angen diwygio'r rhestr o lofnodwyr awdurdodedig. Bwriedir i'r rhestr ddiwygiedig o lofnodwyr awdurdodedig fod yn fesur interim yn unig a fydd yn cael ei adolygu unwaith y bydd Trysorydd wedi ei benodi neu fel sy'n briodol fel arall.

**2.2** O ran (a) uchod, mae angen llofnodion y Trysorydd, ynghyd ag unrhyw ddau o'r canlynol – Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol, Is-gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol a Chadeirydd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol. Cynigir bod llofnod Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth yn cael ei dderbyn yn lle llofnod y Trysorydd.

**2.3** O ran (b) uchod, mae angen llofnod y Trysorydd ar hyn o bryd. Cynigir bod llofnod Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth yn cael ei dderbyn yn lle llofnod y Trysorydd.

**2.4** O ran (c) uchod, mae'r trefniadau'r un fath ag yr ydynt ar gyfer (a). Cynigir bod llofnod Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth yn cael ei dderbyn yn lle llofnod y Trysorydd.

**2.5** O ran (d) uchod, mae'r trefniadau'r un fath ag yr ydynt ar gyfer (a). Bwriedir gwella hyblygrwydd a gwneud i ffwrdd â'r gofyniad am lofnod y Trysorydd, cynigir bod y llofnodwyr yn cael eu diwygio fel bod angen unrhyw ddau o'r canlynol: Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol, Is-gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol ac/neu Gadeirydd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

**3.1** Os bydd yr Ymddiriedolaeth yn penderfynu diweddaru'r rhestr o lofnodwyr awdurdodedig, cynigir bod y llofnodwyr priodol wedyn yn llofnodi siec i ad-dalu i Gyngor Sir Ynys Môn unrhyw daliadau  a wnaed ar ran yr Ymddiriedolaeth. Bydd rhestr o'r taliadau a wnaed a'r balans cyfredol ar gael i'w harchwilio yn y cyfarfod.

**Argymhelliad**

**A.** Cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r llofnodwyr awdurdodedig fel y manylir ar hynny yn rhannau 2.2, 2.3, 2.4 a 2.5 uchod.


**RICHARD MICKLEWRIGHT** **14 IONAWR 2015**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)  / SWYDDOG A151 DROS DRO**
**CYNGOR SIR YNYS MÔN**